

Ei'n ymateb



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir

Gorffennaf 2020

EI'N YMATEB: FFERMIO CYNALIADWY A'N TIR

Cefndir

1. Gofynnodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, a gyhoeddwyd y llynedd, am sylwadau ar ein cynigion ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd i Gymru. Cynigiodd yr ymgynghoriad system newydd o gymorth ariannol i ffermwyr, wedi'i chysylltu ag ymdrechion i gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy. Roedd y rhain yn cynnwys gwell ansawdd aer a dŵr, ac ecosystemau cadarnach – a hynny oll ochr yn ochr â pharhau i gynhyrchu bwyd diogel a chynaliadwy o ansawdd uchel.
2. Cafwyd dros 3,300 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Roedd ychydig dros 500 o'r ymatebion hynny yn ymatebion unigryw gan unigolion a sefydliadau gyda'r gweddill yn gysylltiedig â thair ymgyrch benodol. Roedd y rheini a gyflwynodd ymatebion unigol yn cynrychioli amrywiaeth eang o leisiau a safbwyntiau. Nododd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr eu bod yn ymwneud yn uniongyrchol â ffermio. Cyhoeddwyd y dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Mai.
3. Mae'r papur hwn yn cyflwyno ymateb y Llywodraeth i'r prif faterion yn y dadansoddiad.
4. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig cefnogi ffermwyr drwy ddatblygu cynllun ar gyfer y dyfodol a all Reoli Tir yn Gynaliadwy. Credwn y bydd y dull gweithredu hwn yn sicrhau y gall ffermwyr barhau i ffermio, yn gwella eu gallu i ymdopi â heriau'r dyfodol ac yn eu gwobrwo am ehangu eu rôl wrth ddarparu amrywiaeth o fuddiannau a fydd yn cyfrannu at lesiant cymdeithas gyfan. Cynigir y dylai cynllun o'r fath ddisodli Cynllun presennol y Taliad Sylfaenol (BPS) oherwydd, fel y nodir yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, dydi cynllun o gefnogaeth sydd wedi ei ddatgyplu o ganlyniadau, fel BPS, ddim yn bodloni'r gofynion a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) na Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a nodwyd yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn enghraifft o gynllun a all fodloni'r gofynion hynny. Fodd bynnag, ni wneir unrhyw benderfyniad ar unrhyw gynllun newydd hyd nes y bydd y dadansoddiadau economaidd a'r dadansoddiadau effaith angenrheidiol wedi'u cwblhau, ac fod pob mater perthnasol arall wedi ystyried.
5. Yn y cyfamser, bydd swyddogion polisi yn parhau i fireinio a datblygu cynigion ar gyfer creu cynllun cymorth amaethyddol a all helpu i gyflawni ymrwymadau Llywodraeth Cymru o dan y ddwy Ddeddf hyn ac i darparu gwobr briodol i fferwyr am eu gwneud. Rhaid i unrhyw gynllun yn y dyfodol helpu ffermwyr i gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector: cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy; ymateb i argyfwng yr hinsawdd; a gwyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni yn erbyn yr ymrwymadau a wnaed gennym i sicrhau cyfiawnder amgylcheddol a chefnogi ymdrechion i gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy.

6. Yn ddiweddarach eleni, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Papur Gwyn yn nodi cynigion ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn y 6^{ed} Senedd. Bydd yr ymatebion a gawsom i *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* a thrafodaethau eraill â rhanddeiliaid yn helpu i hysbysu cynnwys y Papur Gwyn.

Ymatebion

7. Polisi cyffredinol

- i. Er y nodwyd sawl mater mewn perthynas â'r fframwaith polisi cyffredinol a nodwyd yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, roedd yr ymatebwyr yn cytuno, ar y cyfan, bod y fframwaith arfaethedig yn ymateb priodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Yn gyffredinol, mae'r fframwaith yn cefnogi'r egwyddor o ddarparu cyllid yn y dyfodol i gefnogi a gwobrwo ffermwyr sy'n gweithredu systemau ffermio cynaliadwy. Credwn y bydd y dull gweithredu hwn yn golygu y gellir cynhyrchu bwydydd cynaliadwy o ansawdd uchel ac y gellir gwobrwo ffermwyr am ehangu'r cyfleoedd i gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chanlyniadau cymdeithasol cysylltiedig na ellir eu cyflawni ar raddfa fawr gan eraill. Mewn byd lle mae cyfres o gytundebau masnach yn y dyfodol yn debygol o arwain at fwy o gystadleuaeth yn ein marchnadoedd, mae'n debygol y bydd y gallu i ddangos cynaliadwyedd bwyd a gynhyrchir ar ffermydd yng Nghymru sy'n cyrraedd safonau lles anifeiliaid a safonau amgylcheddol uchel yn gynyddol bwysig.

8. Cefnogaeth o blaid y fframwaith polisi

- i. Fel y nodir uchod, roedd ymatebwyr yn cefnogi y fframwaith polisi cyffredinol. Fodd bynnag, gofynnodd rhai ymatebwyr a ellid ychwanegu elfennau pellach fel darparu cymorthdaliadau ar gyfer cynhyrchu bwyd, sicrhau y gallai ffermwyr tenant fanteisio ar y cynllun a dichonoldeb talu mwy na'r 'costau a ysgwyddir a'r incwm â lldiwyd i ffermwyr. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd a ellid ehangu cwmplas y cymorth i gynnwys eraill, fel perchenogion coedwigoedd a choetiroedd.
- ii. Cred Llywodraeth Cymru fod y ffaith bod ymatebwyr yn gyffredinol yn cefnogi y fframwaith polisi arfaethedig yn galonogol. Yng Nghymru, mae angen i ffermwyr reoli eu tir, nid yn unig o ran y bwyd a gynhyrchir o ganlyniad i hynny, ond hefyd gan fod ffermwyr yn gwneud cyfraniad pwysig at amrywiaeth o anghenion cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad at gadernid cymunedau gwledig a'r potensial i gyflawni amrywiaeth ehangach o allbynnau amgylcheddol drwy ehangu eu rôl wrth warchod yr amgylchedd er budd iddyn nhw ac er budd cymdeithas ehangach. Rhaid llunio unrhyw gymorth i'r sector amaethyddiaeth yn y dyfodol mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r anghenion hyn ac yn gwobrwo'r

ffermwyr hynny sy'n galluogi i'r anghenion hynny gael eu diwallu. Mae *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn dangos y gellir cyflawni hyn drwy annog ffermwyr i fabwysiadu arferion sy'n cynyddu cynaliadwyedd a chadernid cyffredinol ffermydd. Ynghyd â chyllid uniongyrchol ar gyfer cyflawni canlyniadau dymunol, rydym yn bwriadu cynnig cymorth i ffermwyr er mwyn galluogi'r gwelliannau busnes angenrheidiol. Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn parhau'n elfen hanfodol o systemau o'r fath, ond caiff ei wobrwyo gan y farchnad.

- iii. Mae angen inni gydbwysu'r uchelgais y mae llawer o randdeiliaid yn ei dangos mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig er mwyn cwmpasu cymaint o ganlyniadau â phosibl (a thrwy hynny, gynyddu cymhlethdod y cynllun) â'r angen i ddatblygu cynllun a fydd yn gymharol syml i ymuno ag ef a'i reoli. Byddwn yn ymdrin â'r mater hwn a'r cyd-destun y cafodd ei godi o'i fewn yn ystod gweithdai cydlunio yn y dyfodol. Fel y nodwyd yn y ddau ymgynghoriad ar y mater hwn, credwn y bydd y canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy yn cyflawni llawer o'r buddiannau amaethyddol, amgylcheddol a chymdeithasol a grybwyllwyd gan yr ymatebwyr. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rhaid bod unrhyw ganlyniadau a gefnogir gan y cynllun yn fesuradwy ac yn ymwneud yn uniongyrchol â'r camau gweithredu y bydd ffermwyr yn eu cymryd er mwyn rhoi'r cynllun ar waith. Rydym yn awyddus i weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn cynnwys unrhyw ganlyniadau a all fodloni'r gofyniad hwn.

9. Rhoi cymhorthdal ar gyfer cynhyrchedd amaethyddol er mwyn diogelu cyflenwadau bwyd

- i. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd y fframwaith yn rhoi digon o sylw na chefnogaeth i ddiogelu cyflenwadau bwyd drwy gynnig cymhorthdal ar gyfer cynhyrchu bwyd. Y safbwynt hwn oedd yn llywio'r gwrthwynebiad cryfaf i'r fframwaith.
- ii. Rydym am ganolbwyntio ar weithio gyda'r sector i gynhyrchu bwyd cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion defnyddwyr. Byddwn yn gweithio gyda ffermwyr a'r sector bwyd ehangach i ddatblygu cysylltiad agos rhwng ffermio cynaliadwy ac amcanion ein gwaith Gwerthoedd Brand Cynaliadwy gyda'r nod o wella mynediad i'r marchnadoedd sy'n cydnabod cynaliadwyedd cynnyrch o Gymru ac yn gwobrwyo ffermwyr mewn ffordd deg am gynhyrchu'r cynnyrch hwnnw. Bydd y cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad yn ein galluogi i gydweithio er mwyn cyflawni'r amcan hwn.
- iii. Mae'r system gymorth bresennol (BPS) yn daliad cymhorthdal incwm wedi'i ddatgysylltu'n llwyr ac fel y cyfryw, nid yw'n cefnogi gweithgareddau cynhyrchu bwyd yn uniongyrchol. Dim ond rhan o'r deiet amrywiol sydd ei angen i gynnal iechyd y gall ffermydd yng Nghymru ei chynhyrchu. Caiff

llawer o allbwn ffermydd yng Nghymru ei allforio, naill ai i wledydd eraill yn y DU neu ymhellach dramor. Yn ogystal, caiff llawer o'r hyn y byddwn ni'n ei fwyta ei fewnforio o wledydd eraill. Dylid diogelu cyflenwadau bwyd drwy sicrhau y caiff cynnyrch o Gymru ei ategu drwy fewnforio bwyd a gynhyrchir yn unol â'r safonau y mae disgwyl inni gydymffurfio â nhw hefyd. Rhaid i hyn fod yn un o'n hamcanion wrth ddatblygu cytundebau masnach yn y dyfodol.

10.Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig

- i. Roedd y prif faterion a nodwyd yma yn ymwneud ag angen canfyddedig i sicrhau sefydlogrwydd ariannol i ffermwyr. Cyfeiriwyd at y mater hwn hefyd wrth i ymatebwyr ystyried y cynnig y dylai arian cyhoeddus dalu am nwyddau cyhoeddus a'r cynnig y dylai cymorth 'fynd ymhellach na'r incwm a ildwyd a'r costau a ysgwyddwyd'. Yn ogystal, codwyd yr angen i gapio taliadau, cymhwysedd a'r angen i leihau biwrocratiaeth.
- ii. Rydym yn cydnabod bod y cyfnod heriol sy'n wynebu ffermwyr a chymdeithas yn ehangach yn golygu bod angen rhoi cymorth i ffermwyr. Credwn mai drwy sicrhau bod gan ffermwyr fusnesau a gaiff eu rhedeg yn dda gyda ffrydiau incwm arallgyfeiriedig (gan gynnwys y cymorth a gynigir yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*) a model busnes sy'n canolbwyntio'n glir ar y dyfodol y maent am ei sicrhau i'w busnes y gall ffermwyr ymdopi ag anwadalrwydd y farchnad orau. Bydd y cynllun arfaethedig yn helpu drwy ddarparu ffrwd incwm nad yw'n dibynnu'n uniongyrchol ar y farchnad am gynhyrchion amaethyddol. Yn ogystal, bydd y cynllun yn galluogi ffermwyr i gael gafael ar gymorth a chynghor busnes.
- iii. Er na wnaed unrhyw benderfyniad eto ar ba fath o gymorth a gynigir i'r sector amaethyddiaeth yn y dyfodol, mae'r cynllun arfaethedig a nodir yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yn cyfrannu tuag at fodloni saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Yn ogystal, bydd y cynllun arfaethedig yn golygu y gellir gwneud taliadau am gyflawni'r canlyniadau dymunol, gan gynnwys lefel o gymhelliant na fu'n bosibl fel rhan o gynlluniau blaenorol h.y. y tu hwnt i'r 'incwm a ildwyd a chostau a ysgwyddwyd'. Ni ellir byth gwarantu sefydlogrwydd ariannol, ond dylai natur hirdymor y cynllun arfaethedig roi mwy o hyder i ffermwyr yn hyn o beth.
- iv. Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi ei wneud eto ar gymhwysedd na chapio taliadau gan nad oes unrhyw eglurder ar hyn o bryd o ran faint o gyllid y bydd Llywodraeth y DU yn ei ddarparu ar gyfer amaethyddiaeth yn y dyfodol.

11. Hygyrchedd y cynllun

- i. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylai'r cynigion annog a sicrhau hygyrchedd, yn benodol i ffermwyr tenant. Yn ogystal, codwyd pryderon o ran mynediad i fand eang mewn ardaloedd anghysbell.
- ii. Rydym am sicrhau y gall ffermwyr tenant fanteisio ar y cynllun arfaethedig. Fodd bynnag, er y byddwn yn ceisio galluogi mynediad, mae cytundeb tenantiaeth yn parhau'n gydberthynas gyfreithiol a masnachol rhwng tiffeddianwyr a thenant. Rydym yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar ar denantiaethau yn ofalus a byddwn yn cyflwyno cynigion yn y Papur Gwyn.

12. Pryderon am Roi'r Cynllun ar Waith

- i. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch gweithredu gan nad oeddent yn siŵr sut y byddai'r cynigion yn gweithio'n ymarferol.
- ii. Fel y nodwyd gennym ym mharagraff 10, ein uchelgais yw creu cynllun sy'n cynnig cymorth a chynghor ariannol er mwyn galluogi ffermwyr i ddatblygu dyfodol cynaliadwy iddyn nhw eu hunain a'u ffermydd.
- iii. Nid oes penderfyniad eto ar fanylion strwythur a gweithrediad cynllun ar gyfer y dyfodol. Cynhelir ymgynghoriad pellach ar y manylion hynny ar yr adeg briodol.
- iv. Mae'n bosibl y bydd ffermwyr sydd wedi arfer â chael cymorth o dan y cynllun presennol (BPS) yn ei chael hi'n anodd addasu i'r newid o ran dull gweithredu i ddechrau, ond bydd y gwasanaeth cynghori arfaethedig yn eu helpu yn ystod y cyfnod pontio. Rydym hefyd yn ystyried datblygu gwasanaeth allgymorth cyn y caiff unrhyw gynllun newydd ei roi ar waith er mwyn i ffermwyr a'u hasiantiaid allu deall y newidiadau a fydd yn gysylltiedig â chynllun newydd.

13. Gwobrwyo Creu a Chynnal

- i. Roedd yr ymatebwyr hynny a fynegodd farn yn teimlo y dylai'r cynllun wobrwyo ymdrechion i 'greu' ac i 'gynnal' o gyflawni canlyniadau Rheoli Tir yn Gynaliadwy.
- ii. Bydd y cynllun arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr sy'n cymryd camau gweithredu y cytunwyd arnynt er mwyn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Lle mae angen rheoli parhaus er mwyn cyflawni canlyniadau o arferion da sy'n bodoli eisoes, cynigir y caiff hyn ei gydnabod a'i wobrwyo ynghyd â chyflawni canlyniadau newydd o ran Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

14. Lleihau Biwrocratiaeth

- i. Roedd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr yn ofni y byddai'r cynllun arfaethedig yn cynyddu'r baich ar ffermwyr yn sylweddol o ran gwaith papur a gwaith gweinyddol arall.
- ii. Mae cyfrifoldeb ar y Llywodraeth i sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei wario'n ddoeth ar yr amcanion y caiff ei ddarparu ar eu cyfer. Bydd rhyw lefel o fiwrocratiaeth yn anochel yn gysylltiedig ag unrhyw gynllun yn y dyfodol, fel sy'n wir am Gynllun y Taliad Sylfaenol ar hyn o bryd.
- iii. Bysa Adolygiad o Gynaliadwyedd Fferm yn cael ei cynhelir er mwyn ymuno â'r cynllun arfaethedig. Gall yr adolygiadau hyn fod yn gymesur â chymhlethdod busnes y fferm. Hefyd, mae mabwysiadu dull talu yn seiliedig ar ganlyniadau yn ein galluogi i fod yn llai rhagnodol, ond gan sicrhau ar yr un pryd y cyflawnir y canlyniad. Rydym yn deall y bydd lefel y cyngor a'r cymorth y bydd ei hangen yn amrywio rhwng ffermydd, felly bydd angen inni ddatblygu ateb cymesur. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio dulliau hunanasesu ac hunanadrodd i'w gwneud hi'n hawdd ac yn syml i ffermwyr ddangos eu bod wedi cwblhau eu camau gweithredu.
- iv. Lle y bo'n bosibl, rydym yn cynnig addasu systemau sy'n bodoli eisoes ar-lein. Os na fydd hyn yn ymarferol, byddwn yn sicrhau y caiff rhanddeiliaid eu cynnwys yn y broses o ddylunio a defnyddio'r rhyngwyneb i gwsmeriaid ar gyfer unrhyw system newydd, fel y gwnaed wrth ddatblygu RPW Ar-lein, er mwyn sicrhau bod y system yn gweithio i ddefnyddwyr.

15. Buddsoddi mewn Nwyddau Cyhoeddus

- i. Roedd barn gymysg ar gynnig cymhellion i ffermwyr ddarparu nwyddau cyhoeddus ychwanegol.
- ii. Gall camau a gymerir gan reolwyr tir yn gyffredinol, a ffermwyr yn arbennig, effeithio ar y broses o gyflawni canlyniadau sy'n ddymunol yn gymdeithasol fel aer glân, dŵr glân, ymdrin â'r argyfwng hinsawdd a gwella cadernid cynefinoedd. Rydym am helpu ffermwyr i ddiogelu'r canlyniadau hyn a gwella eu gallu i'w cyflawni. Bydd hyn o fudd i genedlaethau o ffermwyr ac i gymdeithas ehangach yn y dyfodol. Mae dull gweithredu o'r fath yn cynnig cyfle incwm sefydlog a hirdymor i ffermwyr sy'n dewis ymuno â'r cynllun arfaethedig ac yn sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae ffermwyr yn ei wneud i'r agenda hon yn briodol.

16. Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd a'u dealltwriaeth o Reoli Tir yn Gynaliadwy

- i. Mae'n galonogol gweld cefnogaeth o blaid sicrhau bod cymorth yn y dyfodol yn seiliedig ar yr egwyddor o gynaliadwyedd. Credwn y gellir cyflawni canlyniadau cynhyrchu bwyd a chanlyniadau amgylcheddol ar y cyd. Mae cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy yn helpu i wella'r amgylchedd a bwydo cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- ii. Hoffem annog mwy o ffermwyr i wahodd ysgolion a theuluoedd i ymweld â'u ffermydd er mwyn gweld dulliau Rheoli Tir yn Gynaliadwy ar waith fel rhan o gynllun yn y dyfodol. Rydym yn gwerthfawrogi'r canlyniadau cymdeithasol y mae sector ffermio sefydlog yn eu cyflwyno i gymdeithas fel rhan o gymuned wledig ehangach. Credwn mai'r dull o ddarparu cymorth yn y dyfodol a nodir yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* yw'r ffordd orau i'r Llywodraeth helpu i gynnal y sector er mwyn i'r sefyllfa hon barhau.

17. Y Gwasanaeth Cynghori arfaethedig

- i. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai cynghorwyr feddu ar gymysgedd o arbenigedd a phrofiad, gan gynnwys cydbwysedd rhwng gwybodaeth leol a gwybodaeth arbenigol. Roedd rhai o'r farn y byddai nodi ffermwyr a allai roi cyngor ehangach i'w cymheiriaid yn ffordd dda o roi cymorth a chynghori a lledaenu'r cymorth a'r cyngor hwnnw.
- ii. Mynegwyd pryder hefyd mewn perthynas â'r adnoddau a'r cyllid y byddai eu hangen i ddarparu Gwasanaeth Cynghori newydd ar raddfa lawn. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebwyr o'r farn y byddai Gwasanaeth Cynghori newydd yn gwyro adnoddau cyfyngedig o'r cymorth ariannol uniongyrchol sydd ar gael i ffermwyr.
- iii. Roedd eraill o'r farn bod angen pendant i gynghorwyr ymweld â ffermwyr. Roeddent o'r farn bod meithrin cydberthynas rhwng y fferm a'r cynghorydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynllun yn darparu canlyniadau ystyrlon.
- iv. Roedd ymatebwyr hefyd yn pryderu am argaeledd cynghorwyr a oedd yn meddu ar sgiliau digonol ac awgrymwyd nad Llywodraeth Cymru ddylai gyflogi'r cynghorwyr. Pwysleisiwyd hefyd y dylai cynghorwyr fod yn gyfrifol am y cyngor a roddwyd gan y gallai weithredu fel sail i arferion ffermio.
- v. Rydym yn parhau o'r farn bod gwasanaeth cynghori yn fuddsoddiad gwerthfawr yn ein ffermwyr ac mewn busnesau fferm. Rydym yn deall y bydd lefel y cyngor a'r cymorth y bydd ei hangen yn amrywio rhwng ffermydd, felly bydd angen inni ddatblygu ateb cymesur. Rydym wedi comisiynu cwmni ymchwil annibynnol i ystyried effeithiolrwydd Cyswllt Ffermio. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymchwil hwn, ynghyd ag adborth o'r

ymgyngoriad, yn ein helpu i lywio'r broses o ddylunio unrhyw gymorth cynghori yn y dyfodol ac adeiladu ar yr hyn a nodir fel arferion gorau.

18. Manteision Buddsoddi yn y Diwydiant a'r Gadwyn Gyflenwi

- i. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan ddiwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach i'w chwarae wrth gefnogi'r sector amaethyddol, gan dynnu sylw penodol at fuddiannau cadwyni cyflenwi mwy integredig a chadwyni cyflenwi lleol. Er enghraifft, gallai cefnogi ymdrechion i sefydlu gweithfeydd prosesu lleol ar raddfa fach leihau milltiroedd bwyd a rhoi'r cyfle i ffermwyr leihau costau a chynyddu elw. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebion hefyd fod yn rhaid i unrhyw fath o gymorth i'r diwydiant a chadwyni cyflenwi fod yn amodol ar sicrhau na fyddai unrhyw gymorth o'r fath yn tanseilio ymdrechion i Reoli Tir yn Gynaliadwy ar ffermydd. Pe na byddai, dadleuodd ymatebwyr y byddai hyn yn annheg ac y gallai effeithio'n andwyol ar unrhyw fuddiannau neu fanteision amgylcheddol a ddarparwyd gan ffermwyr, felly hefyd unrhyw werth brand a allai gronni o bosibl fel arall.
- ii. Rydym yn croesawu'r gefnogaeth o blaid y cynnig ehangach mewn perthynas â'r diwydiant a chadwyni cyflenwi. Mae ganddo ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi'r sector amaethyddol. Ar adeg cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, roeddem o'r farn y dylid cadw unrhyw gymorth ar gyfer y gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer yr elfennau hynny o'r gadwyn gyflenwi a oedd yn galluogi canlyniadau ffermio cynaliadwy. Rydym yn parhau i ystyried mai dyma'r safbwynt priodol wrth inni geisio dangos y safonau ansawdd uchel y bwriedir i'r cynllun arfaethedig fod yn sail iddynt.

19. Adnoddau Ariannol Cyfyngedig

- i. Roedd pryderon y gallai cefnogi'r gadwyn gyflenwi ehangach leihau'r adnoddau a fyddai ar gael i ffermwyr.
- ii. Yn y cyfamser, tynnodd rhai sylw at gau cyfleusterau prosesu lleol a'r symudiad tuag at gyfleusterau canolog mwy o faint a'r effaith andwyol yr oedd cyfleusterau o'r fath yn ei chael ar les anifeiliaid, allyriadau carbon a phŵer bargeinio ffermwyr.
- iii. Hyd yma, nid yw'n glir pa ddarpariaeth gyllidebol a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol mewn perthynas â chymorth amaethyddol. Rydym yn bwriadu cefnogi'r diwydiant a'r gadwyn gyflenwi ehangach lle y byddai cefnogaeth o'r fath yn gydnaws ag amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy arfaethedig ac o fudd i ffermwyr yng Nghymru. Caiff y rhan fwyaf o'r cymorth ariannol ei gyfeirio at ffermwyr drwy'r cynllun arfaethedig.

20. Gwella'r Broses Reoleiddio

- i. Roedd ymatebwyr yn awyddus i sicrhau proses reoleiddio syml, effeithiol a chymesur. Roedd pryder hefyd y gallai amgylchedd rheoleiddio yng Nghymru a oedd yn wahanol i weddill y DU leihau cystadleurwydd ffermydd yng Nghymru.
- ii. Nod y broses reoleiddio yw amddiffyn cymdeithas rhag canlyniadau andwyol. Mae hefyd yn sail i'n huchelgais i sicrhau y caiff cynhyrchion o ffermydd yng Nghymru eu cydnabod fel bwyd o ansawdd uchel wedi'i gynhyrchu mewn ffordd gynaliadwy.
- iii. Rydym yn cydnabod y gall y rheolau a'r rheoliadau presennol ymddangos yn gymhleth. Dyna pam y byddwn yn anelu at sicrhau, fel un o egwyddorion allweddol fframwaith rheoleiddio yn y dyfodol, bod y broses reoleiddio yn fwy hygyrch i ffermwyr a rheolwyr tir. Mae hyn yn cynnwys rhoi gwell cyngor ac arweiniad er mwyn helpu i sicrhau bod y broses reoleiddio yn llai beichus.
- iv. Mae'n galonogol gweld bod ymatebwyr yn cytuno bod angen camau gorfodi cymesur. Mae hyn yn gydnaws â'n cynigion.
- v. Dylai cystadleurwydd cynhyrchion o Gymru fod yn seiliedig ar gynhyrchu bwyd o ansawdd uchel, sy'n ddeniadol i ddefnyddwyr, mewn ffordd gynaliadwy. Fframwaith rheoleiddio, sy'n rhoi cyngor a chymorth ac sydd, lle bo angen, yn cyflwyno cosbau cymesur am fethu â chydymffurfio, yw'r sail ar gyfer llunio'r cynllun arfaethedig.

21. Trosglwyddo o Gynllun y Taliad Sengl i unrhyw gynllun newydd.

- i. Mynegodd ymatebwyr bryder am hyd unrhyw gyfnod trosglwyddo, gyda'r mwyafrif o blaid cyfnod o bum mlynedd neu fwy. Cyfeiriodd llawer ohonynt at ansicrwydd ynghylch ein cydberthynas â'r UE fel rheswm dros arafu cyflymder unrhyw newidiadau. Awgrymodd rhai hefyd y dylid treialu rhai agweddau o'r cynllun, neu'r cynllun cyfan, cyn ei gyflwyno'n llawn.
- ii. Rydym yn deall pam bod ymatebwyr yn awyddus i gael cyfnod trosglwyddo estynedig a pham bod canlyniadau'r broses o adael yr UE yn peri mwy o bryder i bobl. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd ymdrin â'r argyfwng hinsawdd, yr angen dybryd i wyrddroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'r angen am aer a dŵr glân. Ni allwn fforddio oedi wrth ymateb i'r materion hyn.
- iii. Mae'r ffordd y caiff tir yng Nghymru ei rheoli yn cael effaith sylweddol ar y materion hyn ac mae'n rhaid inni gydbwyso'r awydd am gyfnod trosglwyddo estynedig â'r angen i helpu ffermwyr i ymdrin â'r materion hyn. Ar ôl cael eglurder ynghylch lefel y cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol ar gyfer cymorth

amaethyddol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu model trosglwyddo priodol.

22. Tystiolaeth a gwaith dadansoddi

- i. Mynegodd ymatebwyr amrywiaeth o safbwyntiau. Un mater allweddol lle cafwyd amrywiaeth barn oedd ffocws penodol unrhyw ddadansoddiadau o effaith, lle roedd gan wahanol ymatebwyr wahanol flaenoriaethau. Tynnodd rhai sylw at y ffaith bod pwyslais gormodol neu bwyslais annigonol ar faterion penodol yn y cynigion, er enghraifft yr effeithiau ar iaith neu effeithiau amgylcheddol. Roedd eraill o'r farn bod y cynigion yn rhy gymhleth, ac yn awyddus i weld dull gweithredu symlach o ran deall a dadansoddi effeithiau. Roedd un garfan o ymatebwyr, er enghraifft, yn awyddus i weld y cynigion yn cael eu hasesu yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- ii. Rydym yn croesawu'r cytundeb cyffredinol o blaid asesu effaith y cynigion, gan gydnabod ei fod yn ymarfer pwysig a gwerthfawr. Byddwn yn parhau i fwrw ati â'n rhaglen ddadansoddi fanwl a chynhwysfawr, fel y nodwyd gennym yn Atodiad A i'r ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn comisiynu dadansoddiadau annibynnol eraill o'n cynigion.
- iii. Byddwn yn cyhoeddi ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) arfaethedig ar ddechrau tymor y 6^{ed} Senedd.
- iv. Byddwn yn cynnal amrywiaeth lawn o asesiadau effaith, gan gynnwys asesu ein cynigion yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r gwaith cychwynnol wedi ei wneud yn baord ac wedi ei amlinellu o fewn Ffermio'n Cynaliadwy a'n Tir.

23. Materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg

- i. Cododd rhai ymatebwyr bryderon am effaith y cynigion hyn ar y Gymraeg, gan awgrymu nad ydynt yn rhoi digon o gefnogaeth a diogelwch i gymunedau lle caiff y Gymraeg ei defnyddio'n helaeth.
- ii. Roedd cefnogaeth eang o blaid cyflwyno'r cynllun yn ddwyieithog.
- iii. Mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn yn deillio o gyfnod estynedig o waith dadansoddi polisi wedi'i anelu at helpu ffermwyr i drosglwyddo i ddyfodol cynaliadwy. Mae'r heriau sydd o'n blaenau yn golygu bod yn rhaid inni ddatblygu dull newydd o roi cymorth, gan barhau i gynnig ffrwd incwm i ffermwyr sydd hefyd yn cyflawni'r buddiannau cymdeithasol hynny y gellir eu darparu drwy reoli tir er budd y gymdeithas ehangach. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i alluogi ffermwyr i aros ar eu tir, gan dderbyn cyllid a chymorth gan Lywodraeth Cymru cyhyd ag y byddant yn dewis ymuno â'r

cynllun. Bydd galluogi hyn yn cefnogi cadernid yn y gymuned wledig ehangach a pharhad y Gymraeg yn yr ardaloedd hyn. Caiff pa bynnag gynllun a ddatblygir ei gyflwyno'n ddwyieithog.

24. Casgliad

- i. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid a roddodd o'u hamser i ddarllen yr ymgynghoriad hwn, ei ystyried ac ymateb iddo. Rydym wedi nodi ein hymatebion polisi i'r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion hynny a byddwn yn eu hystyried yn ofalus yn ein gwaith yn y dyfodol.
- ii. Cyn diwedd y tymor hwn, byddwn yn cyhoeddi Papur Gwyn fel rhagflaenydd i Fil Amaethyddiaeth (Cymru). Bydd y Papur Gwyn hwn hefyd yn ddogfen ymgynghori, felly bydd cyfle i gyflwyno sylwadau pellach ar ein cynigion wrth iddynt ddatblygu.
- iii. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy amrywiaeth o gyfryngau er mwyn gallu datblygu ein syniadau a'n cynigion.